



Y llong ar ben tŵr yr Amgueddfa

Eglwysi Nefyn

Eglwys Santes Fair (Amgueddfa Forwrol Llŷn) i'w gweld yn glir o'r B4417 (Nefyn – Pistyll) ar gwr dwyreiniol Nefyn.

Eglwys Dewi Sant wrth ddringo i fyny o'r Groes ar y B4417 (Nefyn – Morfa Nefyn)

Câi Nefyn ei adnabod ar un cyfnod fel Llanfair yn Nefyn. Mae hyn yn cyplysu dau gyfnod, sef cyfnod Santes Nyfain a sefydlodd eglwys yma'n wreiddiol a chyfnod wedi i'r eglwys gael ei sancteiddio i Fair.

Roedd Nyfain yn un o nifer o ferched Brychan Brycheiniog ac yn chwaer i Tudwen (Llandudwen).

Er bod cryn dystiolaeth canol oesol am fywyd yn Nefyn prin yw'r hanes eglwysig o'r cyfnod yna. Rhoddodd Gruffudd ap Cyнан yr eglwys a thir i'r Brodyr Duon o Abaty Haughmond. Treuliodd Gerallt Gymro a'r Archesgob Baldwin nos Sul y Blodau yn 1188 yma.

Ymwelodd Hyde-Hall â Nefyn yn 1809-11 ond y cyfan a ddywed am yr eglwys yw ei bod ar ffurf petryal a'i chyflwr yn dderbyniol. Roedd ynddi bulpud dyddiedig 1718.

Ymhen degawd, tua 1825 cafodd Eglwys Santes Fair (Amgueddfa Forwrol Llŷn bellach) ei chodi o gerrig lleol a rwbel, a'i gwella yn 1856 'trwy danysgrifiadau oddi wrth foneddigion haelionus o bell'.

Cafodd eglwys newydd ei chodi yn 1903/4 mewn rhan mwy modern o Nefyn. Doedd trigolion tai moethus Nefyn ddim am addoli yn ardal hŷn Nefyn.

Y pensaer John Douglas, Caer gynlluniodd Eglwys Dewi Sant a rhoi iddi gorff a changell yn 1903/4 ar dir wedi'i roi gan Arglwydd Newborough, Glynllifon.

Ffynnon Fair - Wedi'i lleoli yn Stryd Ffynnon, ac er bod amheuaeth ai yma roedd ei safle gwreiddiol. Yma y câi trigolion Nefyn eu cyflenwad o ddŵr ers o leiaf 1868 – blwyddyn codi'r adeiladwaith o'i chwmpas. Eiddo Corfforaeth Nefyn ydyw.

Ffynnon Cybi Bach (SH 30552040) – Mae hon ar ochr orllewinol Ty'n Coed ond mae bellach wedi diflannu i bob pwrpas. Nid oes unrhyw wybodaeth amdani. Ni sefydlodd Cybi yr un eglwys yn Llŷn ond mae dwy Garreg Gybi ger Aberdaron ac un ar Ynys Enlli. Dros y ffin yn Eifionydd mae Ffynnon Gybi yn Llanyby.



Pererindota yn Llŷn



Gan fod yna fynachlog yn Nefyn yn yr Oesoedd Canol roedd y pererinion yn sicr o alw yma a chael gorffwys ar eu taith.

Nid y man cychwyn ond profiadau'r daith a phen y siwrnai sy'n bwysig i'r pererin.

Roedd pererindota yn bod cyn y cyfnod Cristnogol a gallwn ddyfalu y byddai pobl yn talu gwrogaeth i benaethiaid a gladdwyd mewn cromlechi, carneddi ac o bosib o dan feini hirion. Byddent yn ymweld ar adegau penodol o'r flwyddyn, yn arbennig ar hirddydd haf a symudiad arwyddocaol cytser.

Roedd arbenigrwydd meddyginiaethol neu ddawn broffwydol yn perthyn i ddŵr ffynhonnau neilltuol, a chred neu ofergoel yn peri i'r safle ddatblygu sancteiddrwydd.

O dipyn i beth fel y lledaenodd Cristnogaeth mabwysiadodd y Cristnogion cynnar arferion a thraddodiadau'r gymuned baganaidd.

Roedd ofergoel, chwedl, ofn a diniweidrwydd yn rheoli, ac ansicrwydd a breuder bywyd yn ddychryn. Credent mai cosb am bechod oedd salwch ac anabledd.

Ond daeth yr offeiriaid Cristnogol, y 'seintiau cynnar' i'w plith a chynnig gobaith. Wrth ymweld â mannau penodol ac yfed dŵr y ffynnon sanctaidd daethant i gredu y caent wella'u hafiechydon a maddeuant am eu pechodau. Os cosbent eu hunain yn ystod y daith a derbyn penyd gan offeiriad byddai hynny'n hyrwyddo'r adferiad.

Roedd yn haws cael trefn ar eu bywydau wrth dorri cysylltiad â'u cymdeithas a neilltuo am gyfnod i weddio.

Dyna oedd atyniad yr ynys ar y gorwel a welodd Cadfan o'i gell yn Nhywyn, Meirionnydd a llwyddo i

berswadio'i ddilynwyr i encilio i Ynys Enlli. Buont yn cenhadu ar eu taith a sefydlu llannau yma ac acw, yn amlach na pheidio o fewn cyrraedd ffynhonnau.

Datblygodd clas mynachaid ar lethrau Mynydd Anelog a buan y daeth pen draw Llŷn yn dynfa i offeiriaid ac y datblygodd sancteiddrwydd Ynys Enlli.

Lledaenodd dylanwad dilynwyr Cadfan y tu allan i Lŷn a daeth Beuno a'i ddilynwyr yntau a dylanwadu'n drwm ar gymunedau Llŷn.

Mae'r eglwysi a'u saint, y ffynhonnau sanctaidd ac olion Cristnogaeth gynnar welir yn Llŷn heddiw yn tystio fod y pererinion yma yn y canrifoedd cynnar a'u hanes yn parhau i gyfoethogi'r ardal.

Llwybr Pererinion (Gogledd)



Byddai'r pererinion cynnar yn casglu yng Nghlynnog Fawr, (SH 41464970) i baratoi at gyfer y daith flinedig dros yr Eifl i Aberdaron cyn croesi'r Swnt i Ynys Enlli.

Beuno sefydlodd Eglwys Clynnog. Roedd yn sant a ddylanwadodd yn fawr ar Gristnogaeth gynnar yng ngogledd-orllewin Cymru. Roedd ganddo lu o ddilynwyr ac un o'r rhain oedd Aelhaearn a sefydlodd Eglwys Llanaelhaearn. Rhaid oedd galw yno a thorri syched yn Ffynnon Aelhaearn cyn dringo i Fwlch yr Eifl ac i lawr at Eglwys Pistyll.

Dewis arall fyddai dilyn godre Moel Carnguwch ac ymweld ag Eglwys Carnguwch, un arall o lannau Beuno.

Cyn disgyn i lawr o Fwlch yr Eifl câi'r pererinion gyfle am seibiant ar Eisteddfa – cae ar dir Fferm Pistyll. Doedd dim rhaid i'r fferm honno dalu degwm gan eu bod yn cynnig lloches i'r teithwyr blin.

Beuno sefydlodd Eglwys Pistyll hefyd, a gellwch ddal i deimlo naws y canrifoedd cynnar yn yr eglwys heddiw.

Ar yr allt wrth adael yr eglwys i gyfeiriad Nefyn mae carreg â chroes arni. Efallai mai safle i weddio ydoedd



neu bod y garreg yn syml yn dangos y ffordd i'r pereinion ar eu taith.

Yn Llanfair yn Nefyn yn y Canol Oesoedd roedd mynachlog, lle treuliodd Gerallt Gymro a'r Esgob Baldwin nos Sul y Blodau yn 1188. Yma mae Stryd y Mynach ac mae Amgueddfa Forwrol Llŷn yn yr hen eglwys. Santes Nefyn a gâi ei choffâu yn wreiddiol yma ond dan ddylanwad Cwlt Mair cafodd ei sancteiddio i Fair. Yn Stryd y Ffynnon mae Ffynnon Fair rhwng dwy eglwys Nefyn.

O Nefyn i Aberdaron roedd y pererinion yn gallu dilyn yr arfordir. Byddent yn mynd heibio Eglwys Tudweiliog a Ffynnon Cwyfan ac yna ymlaen i Eglwys Llangwnnadr. Wedyn trwy blwyf Bodferin, lle mae safle Eglwys Bodferin, ac ymlaen i Aberdaron.

Gallent hefyd fynd heibio Ffynnon Gybi Bach wrth odre Garn Boduan, mynd i gyfeiriad Garn Fadrun ac ymweld ag Eglwys Llandudwen a'i ffynnon rinweddol. Yna mynd heibio Eglwys Bryncroes a ffynnon Fair ac ymlaen i Aberdaron ac Eglwys Sant Hywyn.

Atyniadau'r Pererinion



Wrth ddod i lawr o lethrau'r Eifl i gyfeiriad Nefyn gwelai'r pererinion fryniau Llŷn yn ymestyn o'u blaenau. Roedd llwybrau'r pererinion yn arwain i ardal Aberdaron trwy Anellog ac Uwchmynydd o'r gogledd o gyfeiriad Clynnog Fawr. Byddent yn cymryd seibiant ym mhen draw Llŷn cyn croesi'r Swnt peryglus i Ynys Enlli ac yn amlach na pheidio yn aros am dywydd ffafriol i hwylio. Ond byddai digon o atyniadau yn yr ardal i ddyfnhau eu profiadau ysbrydol cyn cyrraedd Enlli. Câi Ynys Enlli ei hystyried yn Rhufain Cymru ac roedd tri ymweliad ag Enlli'n gyfystyr ag un ymweliad â Rhufain.

Roedd y pererinion cynharaf wedi darganfod llecyn arbennig i encilio iddo ar lethrau mynydd Anellog a sefydon nhw glàs yno. Dyma, mae'n debyg, leoliad Capel Anellog (SH 15592745) un o gapeli coll cynnar Llŷn. Yno cafodd Cerrig Anellog eu darganfod sy'n dystiolaeth fod Cristnogion yn yr

ardal yn y 5/6edG. Ar un ohonynt caiff Senacus, yr offeiriad, a llu o'i gyfeillion eu coffâu ac efallai fod amryw o'r pererinion bregus a fethodd gwblhau'r daith i Enlli yn eu plith.

O gyfeiriad mynydd Anellog llifa afon Saint i Aberdaron. Byddai cyfle i yfed o ddŵr meddyginiaethol Ffynnon Saint (SH 16542671) a myfyrio wrth Allor Hywyn. Hon ydi'r garreg fawr wastad ger y ffynnon a gafodd ei chwalu wrth godi'r bont gerllaw.


Rhaid fyddai ymweld â Ffynnon Fair (SH 13952519) ar fin Swnt Enlli yn Uwchmynydd. Yno byddent yn craffu am olion carnau ceffyl Mair ac olion ei bysedd yn y creigiau cyn yfed o'i dŵr sanctaidd cyn dringo'n ôl i fyny Grisiau Mair.

Ar y gwastad rhwng mynydd Mawr a Mynydd Gwyddel roedd Capel Mair (SH 13922534) ac yno câi cyrff y meirw eu cadw wrth ddisgwyl am dywydd ffafriol i groesi i'w claddu yn Enlli.

Roedd llety i'w gael yn y Gegin Fawr yn Aberdaron neu yn Cwrt, Uwchmynydd – fferm oedd yn osgoi talu'r degwm am ei bod yn llety pererinion.

Ar dywydd teg byddai cychod yn aros amdanynt ym Mhorth Meudwy (SH 16302552). Mae'r enw hwn a Bodermyd gerllaw yn cyfeirio at feudwyaeth y pererin.

Eglwys Clynnog (SH 414649706)



Cyfarwyddiadau: Ar yr A499 (Caernarfon – Pwllheli). Trowch i mewn oddi arni i bentref Clynnog Fawr. Adeilad amlwg yng nghanol y pentref.

Ffynnon Beuno: (SH 41333945) Dilynwch y ffordd (Llwybr Arfordir Cymru) sy'n arwain i gyfeiriad y de o'r pentref.

Beuno yw prif sant gogledd-orllewin Cymru. Cafodd ei eni yn y 7fedG ym Mhowys ac mae'n debyg iddo genhadu tua'r gogledd lle cwrddodd â Gwenffrewi yn Nhreffynnon. Yna dilynodd ffyrdd y Rhufeiniaid tua'r gorllewin i Segontium. Sefydlodd yng Nghlynnog a daeth yn brif arweinydd ysbrydol gogledd-orllewin



Cymru. Yn Ynys Môn sefydlodd nifer o eglwysi yn eu plith Trefdraeth ac Aberffraw ac mae rhai o'i eglwysi yn Llŷn yn cynnwys Pistyll, Carnguwch, Botwnnog a hen Eglwys Pwllheli yn Deneio.

Yn agos at Eglwys Clynnog Fawr yn Arfon mae Ffynnon Beuno (SH 41333945) lle byddai'r epileptig a rhai'n dioddef o glefydau yn ymolchi. Byddai'r claf yn cysgu'r noson honno ar frwyn ar fedd Beuno, o flaen yr allor yn Eglwys y Bedd (Capel Beuno). Cyn gadael byddai disgwyl i'r claf roi pedair ceiniog yn offrwm yng Nghyff Beuno a gadael cerrig gwynion yn yr eglwys yn brawf iddo fod yno. Câi grafu llwch oddi ar un o'r creiriau i gofio am ei ymweliad. Byddent yn cymysgu'r llwch mewn dŵr i drin dolur ar y llygad.

Galwodd Thomas Pennant yn Eglwys Clynnog ac o flaen yr allor gwelodd 'wely plu lle treuliasai truan paralytig o Feirion y nos'.

Cafodd Eglwys Clynnog ei llosgi yn ystod ymosodiadau'r Llychlynwyr yn y Canol Oesoedd yn 978, a hefyd ymhen canrif neu ddwy wedyn gan y Normaniaid.

Yn y fynwent mae deial haul o'r 11egG. Yma hefyd mae bedd Eben Fardd (1802 – 63) ysgolfeistr, bardd a chymeriad amlwg yn y byd llenyddol.

Roedd coleg yn yr Eglwys yn y 15fedG – un o chwech yng Nghymru.

Cyfeiriadau at Feuno



Cyff Beuno

Ym mhlwyf Clynnog mae nifer o gyfeiriadau at Feuno sy'n tanlinellu iddo fod yn Gristion cynnar amlwg.

Gored Beuno – Cawn wybod yn 'Cyff Beuno' (Eben Fardd) y byddai cerrig mawrion yn dod i'r golwg ym Mhorth Clynnog a bod modd cerdded drosodd i Glynnog Fechan ym Môn ar drai. Byddai Beuno yn mynd yno i bregethu ac unwaith disgynnodd ei lyfr o bregethau i'r dŵr. Y gylfinir achubodd y llyfr a'i roi ar garreg yn ddiogel o afael y llanw. Fel gwobr cafodd y gylfinir y gallu i guddio ei nyth fel na allai neb ddarganfod ei hwyau.

Ar lan y môr gosododd y myneich gylch o gerrig i greu cronfa ddŵr fel na allai'r pysgod ddianc ar drai.

Nod Beuno: Câi lloi ac ŵyn eu geni yng Nghlynnog â hollt yn eu clustiau. Anifeiliaid arbennig iawn oeddent ac arnynt Nod Beuno. Caent fynd i'r eglwys ar Sul y Drindod a'u cyflwyno i'r Wardeiniaid, yna eu gwerthu a rhoi'r arian yng Nghyff Beuno.

Llyfiad Beuno – Marc ar gefnau anifeiliad fyddai mewn cyflwr arbennig o dda.

Maen Beuno – Carreg a chroes Ladiniaid arni wedi i Beuno ei llunio â'i fys. Roedd yn wreiddiol ar lan yr afon yn Glan Beuno, Bontnewydd (SH 48106010). Aed â hi wedyn i Feddgelert cyn iddi ddod i Eglwys Clynnog yn 1919. Mae i'w gweld yng Nghapel Beuno.

Carreg Fedd Beuno - Mae'r garreg hon wedi'r haddurno â chroes i'w gweld ym mhen gorllewinol yr eglwys.

Dywedir mai hon oedd y garreg ar fedd Beuno a'i bod hi ar ei fedd yng Nghapel Beuno. Difethwyd ei fedd yn 1856.

Bugeiliaid Beuno – Mae cyfeiriad atynt yn y chwedl am y Santes Digwg. Cafodd ei darganfod gan y bugeiliaid â'i phen wedi'i dorri ac aethant â'i chorff at Beuno i'w adfer. Tarddodd ffynnon ar dir Pennarth, Brynaerau lle disgynnodd ei gwaed.

Ynys Yr Arch – Pan fu Beuno farw cafodd ei gorff ei gludo i ardal Bwlchderwin. Trafododd yr osgordd ble dylent ei gladdu ac aeth yn ddadl boeth – ai yng Nghlynnog, Nefyn neu ar Ynys Enlli.

Wedi methu penderfynu syrthiodd y cludwyr i gysgu. Wedi deffro gwelsant dair arch yn union yr un fath ac felly cafodd pawb ei blesio, er mai i Glynnog yr aeth y corff, yn ôl y sôn!

Dyma leoliad hen Ysgol Ynys yr Arch. (SH 45604740)



Eglwys Llanaelhaearn (SH 370448)



Cyfarwyddiadau: *Oddi ar y B4417 (Llanaelhaearn – Nefyn). Mae angen troi i'r dwyrain i mewn i bentref Llanaelhaearn*

O'r A499 (Pwllheli – Caernarfon) ym mhentref Llanaelhaearn *trowch i fyny'r allt gyferbyn â Caffi'r Eifl.*

Wrth deithio godre'r Eifl bu Beuno yn dyst i ymosodiad ar ddieithryn yn ôl y sôn. Roedd y corff wedi'i ddarnio ond pan aeth ato sylwodd mai un o'i ddilynwyr oedd ef. Rhoddodd y corff yn ôl wrth ei gilydd ond roedd darn o'i dalcen ar goll. Rhoddodd Beuno ddarn o haearn yn y fan honno a'i wella'n llwyr. Felly cafodd ei enwi yn Aelhaearn a sefydlodd eglwys lle digwyddodd yr ymosodiad. Dyma leoliad Eglwys Llanaelhaearn.

Cafodd rhan hynaf yr Eglwys, sydd ar ffurf croes, ei hadeiladu yn y 12fedG, y gweddill yn y 16/17egG a'r clochdy uchel yn 1744.

Yn yr Eglwys mae carreg o'r 6edG. ac arni'r arysgrif 'ALITORVS ELMETIACO / HIC IACET' yn nodi lle cafodd Alitorius ei gladdu – gŵr a ymfudodd yma o Elmet yng ngogledd Lloegr.

Ar ymyl llwybr y fynwent mae carreg yn coffáu Melitorius, person anhysbys a mwy na thebyg mae'r garreg yn sefyll yn ei safle gwreiddiol.

Yn ôl Nash Williams, mae enwi'r personau ar y cerrig hyn yn rhoi cipolwg i ni ar raniadau'r llwythi a gwleidyddiaeth y cyfnod.

Rhyw 200m oddi yno ar y B4417 mae Ffynnon Aelhaearn. Mae ei muriau a'i tho mewn cyflwr da wedi'i hadfer gan AHNE Llŷn. Y tu mewn mae meinciau cerrig yn amgylchynu'r ffynnon. Byddai'r cleifion yn eistedd yno a phan gynhyrfai dŵr y ffynnon byddent yn ymolchi ynddo.

Eglwys Carnguwch a Llithfaen



Eglwys Carnguwch (SH 37434182)

Cyfarwyddiadau: *O Lithfaen: Dilynwch lôn ddi-ddosbarth oddi ar y B4417 tua'r de-ddwyrain (1km i'r dwyrain o bentref Lithfaen) gyda godre Moel Carnguwch ac yna dilyn llwybr ymhen 1.3km tua'r de ac i lawr at yr eglwys.*

O Lwyndyrus: Ger yr Hen Felin sy yn ymyl capel Llwyndyrus (SH 3738441010) dilynwch lôn fferm i Benfras Uchaf ac yna llwybr ymlaen i'r gogledd.

(I gyrraedd Llwyndyrus: dilynwch yr A499 (Y Ffôr – Llanaelhaearn) ac o fewn 1.3km o'r Ffôr dilynwch arwyddion Llwyndyrus.

Neu dilynwch arwyddion Llwyndyrus o'r ffordd ddi-ddosbarth (Llithfaen – Pentreuchaf).

Eglwys Llithfaen (SH 36004324)

Cyfarwyddiadau: *Dilynwch y B4417 (Llanaelhaearn – Nefyn) ac at safle'r adeilad (SH 3561243167) sydd mewn cwm 400m i'r dwyrain o bentref Llithfaen.*

Mae Eglwys Carnguwch yn un o nifer o eglwysi a gafodd eu sefydlu gan Beuno yn y 7fedG.

Yn ôl prisiad Norwich roedd eglwys yma yn 1284.

Pan ymwelodd Hyde-Hall â Charnguwch rhwng 1809 a 1811 gwelodd fod yr adeilad ar ffurf croes mewn cyflwr erchyll. Ond yn 1882 cafodd yr eglwys bresennol ei hadeiladu ar gynllun y pensaer, Henry Kennedy. Mae'r ffenestr ddwyreiniol yn dyddio o'r 15/16fedG.



Mae'r pulpud deulawr a seddi â Ld.N. (Lord Newborough) a '1815 I LL' (Isaac Lloyd, Plas Trallwm) arnynt yn rhai o'i nodweddion amlwg.

Roedd ynddi ddysgl i ddal dŵr o ffynnon Sanctaidd (gerllaw) a châi'r dŵr ei wasgaru â brwsh arbennig – 'Ysgub y Cwhwfan' dros bawb a âi i'r gwasanaeth.

Bellach mae'r eglwys wedi'i dadgysegru ac mae Cyfeillion Eglwys Carnguwch yn gwarchod y safle.

Yn wreiddiol roedd yma fynwent gron ac ynddi gasgliad gwerthfawr o eglunion beddargraff.

Pan agorodd chwarel i'r Eifl yng nghanol 19yddG datblygodd pentref Llithfaen ond roedd yr eglwyswyr yn amharod i fynd i Garnguwch i addoli. Câi gwasanaethau eu cynnal yn yr ysgol ar y dechrau cyn adeiladu Eglwys Sant Ioan yn y pentref. Henry Kennedy oedd y pensaer. Wedi agor hon yn 1882 caeodd Eglwys Carnguwch yn fuan wedyn.

Caeodd Eglwys Sant Iona hithau ymhen amser a'i throi'n dŷ.

Eglwys Pistyll (SH 32834232)



Cyfarwyddiadau: Dilynwch y B4417 (Llanaelhaearn – Nefyn). 0.6km i'r dwyrain o bentref Pistyll mae arwyddion yn cyfeirio at yr eglwys i gyfeiriad y môr.

Dyma eglwys amlwg iawn ar Lwybr y Pererinion wedi'i sefydlu gan Beuno.

Mae'r enw 'Pistibus' yn ymddangos ym Mhrisiad Norwich yn 1284.

Mae pen gorllewinol yr adeilad yn dyddio o'r cyfnod hwnnw neu'n gynharach a'r pen dwyreiniol o'r 15edG. Mae symrlwydd Canol Oesol yr adeilad yn parhau – meinciau, waliau moelion, tyllau yng nghoed y to ar gyfer rhaffau, dim trydan, gwellt a brwyn ar y llawr.

Mae arwyddion o gochni ar y wal ogleddol sy'n awgrymu i furlun fod yno.

Mae'r bedyddfaen yn dyddio'n ôl i'r un cyfnod – yn ddiweddar yn y 12fedG.

Ym mhen dwyreiniol y mur gogleddol mae Ffenestr y Gwahangleifion. Am na châi'r gwahanglwyfus gymysgu â'r pererinion eraill byddai'n rhaid iddo sefyll y tu allan a thrwy'r ffenestr hon gyferbyn â'r allor gwyliai'r sagrafen yn cael ei gweini.

Wrth nesáu at Bistyll o'r gogledd-ddwyrain o gyfeiriad yr Eifl mae Eisteddfa – cae mae'n debyg lle byddai'r pererinion yn gorffwyo. Caiff ei restru yn 1841. Unwaith bu yno Gae Hosbis, ac ynddo ysbty neu lety a Chae Hosbis Penlan lle câi'r gwahanglwyf ymgeledd. Roedd yno ardd arbennig o lysiau meddyginiaethol.

Mae sôn bod y myneich wedi ailgyfeirio'r ffrwd i'r llyn ger yr eglwys i greu pwll

pysgod. Gyferbyn roedd unwaith fur cromliniol yn rhan o adfail y mynachlog.

Ni fyddai'n rhaid i fferm Pistyll, ger yr eglwys dalu'r degwm gan fod disgwyl iddynt letya pererinion.

Yn y fynwent mae bedd Rupert Davies, a fu'n chwarae rhan Maigret, y ditectif Ffrengig ar y teledu yn nechrau'r 60au.

Y Ffynnon Sanctaidd – Mae hon ar y chwith i gyfeiriad y ffordd fawr. (SH 32974225). Does dim tystiolaeth o'i sancteiddrwydd.

Croes Pistyll – (SH 31974182) Wrth adael i gyfeiriad Nefyn mae carreg â chroes arni a allai fod yn safle i weddio neu i ddangos y ffordd i'r pererinion ar eu taith.

Eglwys Ceidio (SH 28773832)



Cyfarwyddiadau: Dilynwch y ffordd ddi-ddosbath i'r de-orllewin o dafarn Bryncynan ar groesffordd y B4412 (Morfa Nefyn- Bryncynan) a'r A497 (Nefyn – Pwllheli)

Ar groesffordd Glanrhyd (SH 28303840) trowch tua'r de ac mae'r adeilad ar y chwith.



Mab Madren, merch Gwrtheyrn Gwrtheneu (Nant Gwrtheyrn) oedd Ceidio. Prin yw'r wybodaeth amdano ef na'i fam ond mae sôn iddynt ddianc o Gastell Gwrtheyrn pan aeth hwnnw ar dân a dianc i Garn Fadryn.

Yn Oriel Plas Glyn y Weddw mae cerflun marmor ohonynt yn dianc. Cyn hynny bu ym mhlasdy Madryn cyn ei symud i Lynllifon.

Roedd eglwys yma yn 1254 yn ôl Prisiad Norwich.

Mae'r adeilad wedi cau ers blynnyddoedd. Mae'n eiddo preifat.

Eglwys Boduan (SH 32523773)



Mae'r eglwys wedi'i chau ac yn eiddo preifat.

Cyfarwyddiadau: Ar ochr y ffordd A499 (Pwllheli – Nefyn) ym Moduan. (Nefyn 6.5km, Pwllheli 6.5km)

Nawddsant eglwys Boduan yw Buan ac mae'r plwyf a Garn Boduan wedi'u henwi ar ei ôl. Mae croes i'w goffâu ar fin y ffordd wrth yr eglwys yn nodi iddo farw ar 4 Awst 595.

Dwy chwaer, Katherine ac Elizabeth Wynne o Blas Boduan fu'n gyfrifol am roi tir ac am gyfrannu arian i godi'r eglwys yn 1715. Ond roedd mewn cyflwr gwael iawn pan ymwelodd Dr Johnson a Mrs Thrale – merch Bodfel, Boduan – â hi yn 1725. Yr un oedd sylwadau Edmund Hyde Hall yn 1809-11.

Cafodd yr eglwys bresennol ei hadeiladu yn 1894. Defnyddiodd penseiri esgobaeth Bangor, Henry Kennedy a P S Gregory dywodfaen coch o Sir Gaer. Costiodd dros

£5,000 i'w chodi, swm enfawr bryd hynny, ond bu teulu Wynniaid, plas Boduan yn hael iawn a'u dylanwad yn amlwg yn y cynllun Romanësg. Mae mynedfa i'r eglwys o erddi Plas Boduan, drws preifat a seddau wedi'u neilltuo iddynt.

Roedd dwy o'r saith cloch wedi dod o'r hen eglwys a derbynai'r clochydd yd o'r degwm, sef 'Ysgub y Degwm' yn dâl am eu canu.

Yma mae claddfa rhai o Wynniaid Plas Boduan a Glynllifon.

Mae plac yn yr eglwys i goffâu Syr John Wynn, 2il Farwnig Newborough (1701-73). Prynodd Ynys Enlli a sicrhau ei bod ym meddiant teulu Boduan/Glynllifon am dros ddwy ganrif.

Mae ffenestr i goffâu Spencer Buckley Wynn (3ydd Arglwydd Newborough) (1803-88) a gladdwyd ar Ynys Enlli. Hefyd mae ffenestr Cadfan, yn coffâu Abad cyntaf yr ynys.

Mae cysylltiad arall rhwng teulu Bodfel ag Enlli gan i John Wyn ap Huw dderbyn prydles Ynys Enlli yn rhodd am ei wasanaeth yn cludo baner Edward IV, brenin Lloegr ym Mrwydr Norwich ym 1549.

Y Ffynhonnau Sanctaidd



Ffynnon Beuno, Clynnog Fawr



Yn dilyn Llwybr y Pererinion o gyfeiriad Clynnog, trwy Nefyn ac ymlaen i ben draw Llŷn mae amryw o ffynhonnau y byddai'r pererinion yn sicr o fod wedi ymweld â hwy.

Roeddent yn credu yn eu gallu meddyginiaethol a hawdd dychmygu'r pereinion yn llusgo'n flinderus yn eu gwendid tuag atynt. Gwyddom am rai o'r ffynhonnau ond aeth cyfrinachau'r lleill i ddifancoll ers canrifoedd.

Roedd y ffynhonnau'n bodoli cyn dyfod Cristnogaeth a chyn sefydlu'r eglwys mwyaf hynafol yn Llŷn. Maent yn dangos ble roedd safleoedd sanctaidd ein cyndadau paganaidd ac yn tystio i gredoau a gweithgareddau Canol Oesol.

Roedd cred ein cyndadau yng ngalluoedd dŵr y ffynhonnau wedi ei wau yn dynn wrth eu credoau crefyddol. Ond bellach, o ganlyniad i ddylanwad Piwritaniaeth, ofergoedd yw hyn. Mewn llythyr a anfonodd Ieuan Llŷn at Dafydd Ddu Eryri yn 1796 mae'n sôn am Ffynnon Fair, Uwchmynydd a bod ôl carn ceffyl yn y graig. Dyma Geffyl Mair a chyfeiria Ieuan Llŷn at hyn fel un o 'weddillion Pabyddiaeth'.

Roedd defod a seremoni wrth yfed neu ymolchi yn y dŵr yn hanfodol fel yn Ffynnon Gybi a Ffynnon Beuno. Mae meddygon yn deall pam bod Meddyges Bryn Canaid yn Uwchmynydd yn defnyddio dŵr Ffynnon Saint a'r berw dŵr a dyfai ynddi i wella iselder ysbryd.

Roedd cryn bwysigrwydd i ffynhonnau mewn diwyllianau a gwareiddiad byd eang. Y gred oedd bod duwiau yn byw mewn ffynhonnau a llynnoedd a chaent hwy eu haddoli yn ogystal ag afonydd. O ganlyniad roeddent yn gyrchfan offrymu, yn fannau cynnal seremonïau a'r dŵr yn aml yn feddyginiaethol. 'Duwies Fawr' a 'Duwies Fach' oedd afonydd Dwyfor a Dwyfach.

Mae amrywiaeth ddifyr iawn ymhlith ffynhonnau Llŷn – yn eu henwau, eu natur a'u nodweddion.

Mae'n ddifyr sylwi mor agos at ei gilydd y mae ffynhonnau ac eglwysi'r ardal:

Ffynnon Beuno, Clynnog (SH 41334945)

Ffynnon Aelhaearn, Llanaelhaearn (SH 38434462)

Ffynnon Sanctaidd, Carnguwch (SH 37564184)

Ffynnon Sanctaidd, Pistyll (SH32974225)

Ffynnon Fair, Nefyn (SH 3072 4057)

Ffynhonnau Sanctaidd Lleol



Ffynnon Fair Nefyn

Ceir amryw o ffynhonnau sanctaidd ar Lwybr y Pererinion yn ardal Nefyn a'r Eifl.

Ffynnon Beuno, Clynnog Fawr SH 41334945

Rhyw 250m i'r de o Eglwys Clynnog mae Ffynnon Beuno. Mae'n cael ei gwarchod gan waliau ac mae sedd o'i chwmpas a grisiau yn arwain i lawr i'r dŵr. Byddai'r epileptig a rhai'n dioddef o glefydau yn ymolchi ynddi ac yna mynd i'r eglwys ar gyfer gweddill y driniaeth. Yno byddai'r claf yn taenu brwyn ar fedd Beuno sydd o flaen yr allor yng Nghapel Beuno a chysgu arno dros nos. Yn y bore byddai disgwyl iddo roi grôt fel offrwm yng Nghyff Beuno neu adael cerrig gwynion ar ei ôl yn yr eglwys. Gallai hefyd grafu llwch oddi ar golofn yr eglwys a mynd ag ef gydag ef ar ei daith.

Ffynnon Aelhaearn, Llanaelhaearn SH 38434462

Rhyw 200m o eglwys y plwyf ar y B4417 mae Ffynnon Aelhaearn. Mae ei muriau a'i tho mewn cyflwr da wedi'i hadfer gan AHNE Llŷn. Y tu mewn mae meinciau cerrig yn amgylchynu'r ffynnon. Byddai'r cleifion yn eistedd yno a phan gynhyrfai dŵr y ffynnon byddent yn ymolchi ynddo. Oddi yma byddai trigolion Llanaelhaearn yn cael eu dŵr yfed. Mae plac arni yn nodi iddi gael ei thoi yn 1900.

Ffynnon Sanctaidd, Carnguwch SH 37564184

Mae'r ffynnon hon i'r dwyrain o'r eglwys. Erbyn hyn mae ei chyflwr wedi dirywio'n arw ond mae dŵr clir i'w weld yn llyfo ohoni i Afon Erch ger Sarn y Geifr. Byddai waliau o'i chwmpas a grisiau yn arwain i lawr i'r dŵr.

Roedd yn un o brif ffynhonnau meddyginiaethol yr ardal ac yn gallu gwella amrywiaeth o glefydau.



Yn Eglwys Carnguwch roedd dysgl i ddal dŵr o'r Ffynnon Sanctaidd a châi'r dŵr ei wasgaru â brwsh arbennig - 'Ysgub y Cwhwfan' dros bawb a âi i'r gwasanaeth.

Y Ffynnon Sanctaidd, Pistyll SH 32974225

Wrth fynd o'r eglwys am y ffordd fawr mae'r ffynnon i'w gweld ar y chwith.

Mae wedi'i moderneiddio a gosodwyd plac i ddynodi ei safle.

Roedd yn sicr o fod yn ffynnon o gryn bwys ond does dim tystiolaeth o'i sancteiddrwydd.

Ffynnon Fair , Nefyn SH 30724057

Wedi'i lleoli yn Stryd Ffynnon, ac er bod amheuaeth ai yma roedd ei safle gwreiddiol. Yma y câi trigolion Nefyn eu cyflenwad o ddŵr ers o leiaf 1868 - blwyddyn codi'r adeiladwaith o'i chwmpas. Eiddo Corfforaeth Nefyn ydyw a chafodd ei hadfer yn ddiweddar.

Olion Cynnar Cristnogaeth



Ar ochr y ffordd sy'n arwain i lawr o Bistyll i Nefyn mae Carreg Croes Pistyll (SH 31974182) ac yn Llanaelhaearn mae Cerrig Alitorius a Melitus (SH 37004480).

Mae hyn yn dystiolaeth fod Cristnogaeth wedi cyrraedd Llŷn erbyn diwedd y 5edG ar ôl i'r Rhufeiniad adael Prydain.

Ymledodd Cristnogaeth i Lŷn trwy genhadaeth y 'seintiau'. Nhw oedd y pererinion cenhadol a fyddai'n crwydro gan sefydlu llannau yma ac acw. Mae'r ffynhonnau sanctaidd a'r meini Cristnogol cynnar yn dystiolaeth o hynny.

Dydi pob carreg ddim yn coffáu Cristnogion ac roedd yn arferiad hefyd troi safle yn un Cristnogol trwy roi arysgrif a chroes ar garreg o gyfnod cynharach. Mae Nash-Williams yn cyfeirio at y ddau ddsbarth hyn o gerrig.

Cerrig beddau yw'r cerrig ag arysgrif arnynt yn coffáu offeiriaid neu wŷr o uchel dras gan amlaf. Yr iaith Ladin neu Ogam a gâi eu defnyddio a llwyddant i daflu cryn oleuni ar fywyd y cenedlaethau Cristnogol Cynnar. Ond does dim arysgrif Ogam yn Llŷn.

Yn Llyn ceir nifer o gerrig eraill o gyfnod cynnar Cristnogaeth.

- **Cerrig Alitorius a Melitus**, Eglwys Llanaelhaearn (SH 387448)
- **Carreg Plas Bach**, Ynys Enlli (SH12072214)
- **Cerrig Anelog**, Eglwys Abedaron (SH17332637)
- **Cerrig Penprys**. Plas Glyn y Weddw Llanbedrog, (SH 328314)
- **Carreg Melus**, Eglwys Llangian (SH29562894)
- **Carreg Llannor**, mynwent Eglwys Llannor (SH35393727)

Mae enghreifftiau o gerrig â chroesau arnynt yn brin yn Llŷn. Mae'r rhain o'r 7fed i'r 9fedG pan oedd Cristnogaeth wedi ymledu ledled Cymru.

- **Carreg Groes**, Eglwys Llanaelhaearn (SH 387448)
- **Carreg Croes Pistyll** (SH 31974182)
- **Carreg Hendy**, Ynys Enlli (SH12072214)
- **Carreg Croes Goch**, Llangwnnadr (SH 20882332)



Cerrig Alitorius a Melitus (SH 370448)



Cyfarwyddiadau: *Yng nghanol pentref Llanaelhaearn. Oddi ar yr A499 ('Caernarfon' i Bwllheli) – ar y rhiw tua'r gorllewin. Neu ar y B4417 (Llanaelhaearn i Nefyn) – tua'r dwyrain.*

Carreg Alitorius

Mae hon yn wal ogleddol eglwys Llanaelhaearn i goffáu Alitorius, gŵr o Elmet (Elfed), gogledd Lloegr. Arni mae'r geiriau:

ALITORVS / ELMETIACIO / HIC IACET

Mewnfudwr cynnar oedd Alitorius ac mae hyn yn taflu peth goleuni ar gymdeithas gyfoes a gwleidyddiaeth gogledd Prydain yn y cyfnod hwn.

Carreg Melitus

Ar ymyl llwybr y fynwent mae Carreg Melitus cwta 1m o dalra ydyw.

Yr unig lythrennau ar i lawr mae'n bosibl eu darllen yw:

ME_LI_TV, sef Melitus.

Does dim rhagor o wybodaeth.

Carreg Groes, Llanaelhaearn

Mae'r garreg, sydd rhyw 1m o dalra, mewn mur ger ochr ddeheuol yr eglwys. Pan gafodd y garreg hon ei chofnodi gan Nash-Williams roedd croes arni. Bellach nid yw'r groes i'w gweld – wedi'i dileu gan y tywydd dros y blynyddoedd neu wedi'i chuddio â chen cerrig.

Carreg Croes Pistyll (SH 31974182)



Cyfarwyddiadau: Ar y chwith ar yr allt wrth adael Pistyll am Nefyn (B4417), lle mae tir glas llydan. Mae ychydig yn uwch nag adwy Tir Bach.

(Diogelwch: Dylid parcio yn y gilfan yn uwch i fyny a chymryd gofal.)

Carreg Croes Pistyll (SH 31974182)

Mae'r garreg â chroes arni i'w gweld gyda lintel uwch ei phen ar waelod y wal gerrig lle mae ymyl y ffordd yn llydan. Mae'n 0.3m ar draws a chaiff ei dyddio o'r 8fed i'r 9fedG. Gallai hon fod yn safle i weddio neu yn syml ei bod yn cyfeirio'r pererinion ar eu taith – Llwybr y Pererinion i Enlli.



Dilynwch y Stori

Darganfyddwch fwy am fannau sanctaidd drwy ymweld â Eglwys Pistyll - eglwys gyda gwreiddiau Celtaidd a ddefnyddiwyd gan bererinion ar eu taith i Ynys Enlli.